

Cyngor Bro Betws GG a Melin y Wig

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Iau 30/7/26 yn Neuadd Melin y Wig am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Hefin Lloyd Davies (Cadeirydd), Shaun Turner, Dafydd Evans, Glesni Williams, Geraint Jones, Gwyn Edwards, Helen Hitchmough (Clerc)

Ymddiheuriadau – Connor Edwards – anfon cofion at Connor sydd wedi torri ei goes yn ddrwg. Absennol o'r cyfarfod hefyd: Emyr Roberts.

Croesawyd ni gyd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd - nid oedd posib cynnal y cyfarfod nos Fawrth gan nad oedd posib cael cworwm o gynghorwyr yn bresennol.

Cofnodion o'r cyfarfod olaf – cafwyd y cofnodion o'r cyfarfod olaf yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y cadeirydd.

Datganiadau diddordeb yn unrhyw fater ar yr agenda - Gwyn Edwards a Geraint Jones yn datgan diddordeb yng nghais cynllunio Pencraig Fawr a bydd y ddau yn gadael y cyfarfod pan fydd y mater yn cael ei drafod.

Adroddiad Blynnyddol 25-26 – cynghorwyr yn cymeradwyo bod Adroddiad Blynnyddol 25-26 yn gywir.

Contract cyflogaeth Clerc ar gyfer Cynghorau Lleol – cytunwyd yn gywir. Y cytundeb wedi ei gymeradwyo eisoes gan SLCC ac Unllais Cymru ac yn seiliedig ar delerau'r llyfr gwyrdd.

Cyllideb - dyma'r ffigyrau diweddaraf

Reserve Account - £68.35

Current Account – 13214438 – balans £6881.23

Taliadau/derbyniadau olaf:

23/7/26 Clear Insurance £529.97 DR

18/5/26 Dylan Rhys Jones (Archwilio) £85 DR

27/4/26 Audit Wales £362.00 DR

23/4/26 Precept £1442.00 CR

Yn dilyn cais gan Bwyllgor y Sioe am arian cytunwyd i gyfrannu £1,000 at eu costau. Y Sioe yw'r prif achlysur cymunedol yn yr ardal.

Sefyllfa Ffyrdd – trafodwyd cyflwr ffordd rhwng Bod Petryal a Dolgynlas –

Coed angen sylw - ffyrdd yn cau mewn i loriau eu defnyddio - ffordd Melin y Wig i Minffordd, Derwydd i Bryn Celyn (Cefn Rofft), trofa o Gapel Betws i gyfeiriad Llwyn.

Hyfforddiant - Dafydd Evans wedi mynychu hyfforddiant Modiwl 7 Iechyd a Diogelwch. Un peth oedd yn codi o'r hyfforddiant oedd bod eisiau sicrhau bod holl brofion diogelwch wedi ei gwblhau ar fan cyfarfod y Cyngor (prawf trydan, PART) - Cadarnhawyd bod y rhain i gyd yn gyfredol. Trafod hyfforddiant eto yn ein cyfarfod nesaf - pawb yn brysur dros yr haf.

Bioamrywiaeth – gweithgaredd cymunedol Medi/Hydref – sef plannu bylbiau Cennin Pedr a chasglu sbwriel.

Ceisiadau Cynllunio – trafodwyd y ceisiadau isod – nid oedd gan neb unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau i'r ceisiadau.

Cais / Application: 04/2026/0240/PF

Lleoliad / Location: Agricultural Building, BRYN DREINIOG, Derwen, Corwen, Denbighshire

Cynnig / Proposal: Estyniad i adeilad amaethyddol presennol ar gyfer da byw ar wellt a storfa beiriannau / Extension to existing agricultural building for livestock on straw and machinery store

CAIS/APPLICATION: 04/2026/0304/PF

LLEOLIAD/LOCATION: Land Adjoining, Pencraig Fawr, Betws Gwerfil Goch, Corwen, Denbighshire

CYNNIG/PROPOSAL: Codi annedd menter wledig a gwaith cysylltiedig / Erection of a Rural Enterprise Dwelling and associated works

Arian Wern Ddu - £5,000 at gyfer Clwb ar ôl Ysgol Betws GG i gael canopi. Hefyd cytuno i gael tap dwr poeth i Festri Capel Betws a Neuadd Melin y Wig.